**11eg Cyfarfod Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru**
**Dydd Mercher, 25 Ionawr 2017**
**Ystafell Gynadledda 2il Lawr, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**
**Cofnodion**

---

## Llywodraeth Cymru

Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol – Cadeirydd

## Aelodau

Y Cynghorydd Aaron Shotton – Sir y Fflint, Llefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Cyllid ac Adnoddau
Y Cynghorydd Dyfed Edwards – Gwynedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Y Cynghorydd Peter Fox – Sir Fynwy, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Y Cynghorydd Andrew Morgan – Rhondda Cynon Taf, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

## Yn bresennol

Y Cynghorydd Janice Dudley – Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Swyddogion Llywodraeth Cymru

Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol
Debra Carter – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Rob Hay –- Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Simon Edwards – Polisi Cyllid Llywodraeth Leol

## Swyddogion Llywodraeth Leol

Steve Thomas – Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Mari Thomas – Swyddog Polisi Cyllid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Nigel Aurelius – Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adnoddau), Torfaen, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Mr Geoff Petty – Prif Swyddog Cyllid, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu De Cymru (yn cynrychioli Alun Michael)

## Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd Neil Moore – Bro Morgannwg, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Y Cynghorydd Jamie Adams – Sir Benfro, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Y Cynghorydd Bob Wellington – Torfaen, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Y Cynghorydd Brendan Toomey – Merthyr Tudful, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Y Gwir Anrh Alun Michael – Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

**Arsylwyr**

Clare Williams – Pennaeth Cyllid Dros Dro, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau**

1. Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr Aelodau i'r cyfarfod.

**Eitem 2: Cofnodion a Materion yn Codi o'r Cyfarfod Blaenorol**

2. Roedd y camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol wedi cael eu cwblhau. Roedd eitemau 3 a 4 ar yr agenda'n darparu ar gyfer trafodaeth am fformiwla setliad Llywodraeth Leol a rhaglen waith yr Is-grŵp Dosbarthu (DSG). Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**Eitem 3 ar yr agenda : Cyllid Llywodraeth Leol a Fformiwla'r Setliad**

3. Cafwyd cyflwyniad gan swyddogion ar gyllid Llywodraeth Leol a fformiwla'r setliad. Dilynwyd hyn gan drafodaeth am y fformiwla a meysydd i'w datblygu.

**Eitem 4 ar yr agenda : Rhaglen Waith yr Is-grŵp Dosbarthu ar gyfer 2017**

4. Cyflwynodd swyddogion y papur yn nodi'r agweddau allweddol y rhaglen waith ar setliad llywodraeth leol a'r fformiwla. Cytunwyd ar hyn.

**Eitem 5 ar yr agenda: Diweddariad ar Ddiwygio Llywodraeth Leol**

5. Dywedodd y Gweinidog wrth y Grŵp y byddai'n gwneud datganiad ar 31 Ionawr ynghylch diwygio Llywodraeth Leol yng Nghymru. Byddai Papur Gwyn yn cael ei gyhoeddi'r un diwrnod. Amlinellodd y Gweinidog gwmpas y Papur Gwyn.

**Eitem 6 ar yr agenda: Symud Cymru Ymlaen**

6. Dywedodd y Gweinidog wrth y Grŵp y byddai'n cyhoeddi datganiad ysgrifenedig hefyd ar 31 Ionawr yn nodi'r cynlluniau ar gyfer diwygio cyllid Llywodraeth Leol.

**Eitem 7 ar yr agenda: Diweddariad Comisiynwyr Heddlu a Throseddu**

7. Rhoddodd Geoff Petty ddiweddariad ar Setliad Dros Dro'r Heddlu a gyhoeddwyd ar 15 Rhagfyr 2016 ac adolygiad y Swyddfa Gartref o fformiwla ariannu'r heddlu.

**Eitem 8 ar yr agenda: Unrhyw fater arall**

8. Gofynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am ddiweddariad ar yr ardoll brentisiaethau a dyfodol cyllid Ewropeaidd. Nododd y Gweinidog y sefyllfa ar yr ardoll brentisiaethau a chadarnhaodd mai'r Gweinidog dros Sgiliau a Gwyddoniaeth oedd yn arwain ar hyn.

9. Amlinellodd y Gweinidog y cynnydd wrth brosesu ceisiadau am arian grant Ewropeaidd a nododd y rhagorwyd ar y targedau diweddar.

10. Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf y Cynghorydd Dudley, diolchodd y Gweinidog iddi am ei chyfraniadau a dymunodd yn dda iddi ar gyfer y dyfodol.